Wedi gwyliau'r haf eleni ni fydd Mr Evans yn croesawu'r plant yn ôl i ysgol Penrhyn-coch, gan ei fod yn ymddeol ar ôl pymtheg mlynedd ar hugain o wasanaeth fel athro a phrifathro.

Brodor o Gwmystwyth ydyw ac y mae'r fangre honno yn annwyl iawn ganddo hyd heddiw, a'i wreiddiau wedi eu plannu yn ddwfn yn yr hen fro. Derbyniodd ei addysg gynnar yn ysgol gynradd y Cwm ac oddi yno i ysgol Sir Tregaron.

Ar ôl gadael yr ysgol ymunodd â'r Llu Awyr am gyfnod o dair blynedd, amser pur faith o gofio nad ydyw yn hoff o grwydro ymhell oddi cartref. "Gŵr y filltir sgwar" y bu erioed. Wedi dychwelyd yn ôl i Sir Aberteif bu am gyfnod byr yn glerc mewn mod- urdy yn Aberystwyth cyn mynd yn fyf- yriwr i Goleg y Drindod Caerfyrddin. Wedi graddio yno dechreuodd ar bererindod o athrawiaethu; yn gynta yng Nghaerdydd lle bu'n dysgu Cymraeg mewn dwy ysgol gynradd, cyn symud yn ôl i'w gynefin unwaith eto i ddysgu yn ysgolion Tregaron a Llanrhystud.